

## Taflen Waith ar gyfer Cenhadaeth Newydd i Gymru

Eglwys \_\_\_\_\_ Prif Arweinydd \_\_\_\_\_ Dyddiad \_\_\_\_\_

<b>Beth sydd yn bosibl inni wneud?</b>	<b>Posibiliadau / Awgrymiadau</b>
<p><b>A. Eglwysi 'Antiochia' sy'n abl i ryddhau pobl ac adnoddau.</b> Actau 13:2</p>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Rhoi adnoddau i blannu eglwys mewn ardal gyfochrog, neu ardal lle mae angen ymhellach i ffwrdd.</li> <li>2. Sefydlu grŵpiau cristnogol mewn ardaloedd cyfochrog iddynt hwy eu hunain sy'n arddangos a chyhoeddi'r newyddion da, ond efallai na fydd yn datblygu i fod yn eglwysi newydd.</li> <li>3. Anfon tîmoedd i eglwysi, eglwysi sydd newydd eu plannu, neu i drefnu cenadaethau mewn ardaloedd o angen.</li> <li>4. Mabwysiadu eglwys sydd newydd ei phlannu, neu ei hail-blannu gan ddarparu gweinidogaeth, cyllid a chefnogaeth sylweddol.</li> <li>5. Gall cenhadaeth ar y lefel yma gael ei gyflawni gan eglwysi yn ymuno â'u gilydd o fewn rhwydwaith neu enwad.</li> </ol>
<p><b>B. Eglwysi 'Effesus' sy'n medru dylanwadu ar ardal.</b> Actau 19:10</p>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Drwy sefydlu'r eglwys ar sail grŵpiau cristnogol, fel bod y grŵpiau hyn yn troi o amgylch y 'ganolfan' adnoddau. Mae'r model yma yn fwy addas ar gyfer eglwys fwy mewn ardal wledig lle mae angen sylweddol.</li> <li>2. Drwy wneud/hyfforddi gweithgarwch cenhadol gydag eglwys mewn partneriaeth, e.e. wythnos genhadol, clwb gwyliau, pryd o fwyd, Alffa, Darganfod Cristnogaeth, banc bwyd, Llan Llanast a.y.y.b.</li> <li>3. Rhedeg/cefnogi cyfarfodydd rhanbarthol i bwrpas cryfhau ac ymestyn allan.</li> </ol>
<p><b>C. Ar gyfer eglwysi 'Jerwsalem' sy'n medru anfon tîmoedd i gynorthwyo eraill.</b> Actau 15:22</p>	<p>Mae'n bosibl y bydd rhai eglwys traddodiadol yn ei chael yn anodd i blannu mewn ardaloedd eraill am resymau enwadol.</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Gall y rhain anfon tîmoedd a gweinidogaethau gwahanol ar gyfer wythnosau cenhadol, hyfforddiant, efengylu, cymorth ymarferol, i gefnogi, cyfoethogi, arfogi a rhoi gweledigaeth, yn arbennig o fewn eu henwad eu hunain.</li> <li>2. Efallai y byddai mabwysiadu un sefyllfa yn well na cheisio lledaenu y cymorth yn rhy eang.</li> <li>3. Danfon pregethwyr allan. Eto, tebyg y bydd cefnogi un sefyllfa mewn modd mwy dwys yn fwy gwerthfawr na chymorth achlysurol.</li> </ol>

<p><b>D. Ar gyfer eglwysi Derbe sy'n medru cyrraedd cymunedau cyfochrog, er tebyg y bydd rhai awgrymiadau yn bosibl i bob eglwys. Actau13:49</b></p>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Fel uchod, i sefydlu grŵpiau bychan i rannu y neges fyddai'n cyfarfod yn fwriadol mewn cymuned gyfochrog.</li> <li>2. Cynnal digwyddiadau tymhorol i gasglu pobl (Nadolig, Diolchgarwch a.y.b.).</li> <li>3. Rhedeg cyrsiau Alfa / Darganfod Cristnogaeth gan ddefnyddio aelodau'r grŵp.</li> <li>4. Sefydlu cangen o unrhyw gysylltiad /gweinidogaeth gymunedol, e.e. banc bwyd, cyngor ar ddyled, mam a'i phlentyn...</li> <li>5. Cynnal clybiau mewn ysgolion, cynnal gwasanaethau boreol neu glwb gofal plant.</li> <li>6. Gwasanaethu'r gymuned mewn ffordd ymarferol a gweladwy, e.e. codi ysbwriel, siopa i'r henoed, gyda'r bwriad o gynnal sgysiau bwriadol gristnogol.</li> <li>7. Adeiladu perthynas o bartneriaeth gyda eglwys, neu eglwys newydd ei phlannu mewn rhan arall o Gymru, i sicrhau cyfeillgarwch, gweddi, cymorth, cefnogaeth, anogaeth, cyllido, pregethu, gwaith ymarferol ac hyd yn oed cyfnodau byr o wyliau i adeiladu'r berthynas ar lefel aelod, fel ar lefel arweinwyr.</li> </ol>
------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

**Nodiadau:**

1. Mae'r daflen waith wedi ei bwriadu ar gyfer y tîm sy'n arwain. Llenwch y blychau ar y chwith gyda'r hyn a welwch yn ddefnyddiol o'r awgrymiadau ar y dde.
2. Nid yw'r pedwar categori yma yn sefyll ar wahan yn gyfangwbl, ond yn cael eu bwriadu fel canllaw. Fe all eglwysi weld amryw o bethau mewn categorïau gwahanol sydd yn bosibl iddynt.
3. Rhaid inni gyd ymestyn er mwyn bod mor effeithiol a phosibl, tra ar yr un pryd ddiogelu ein bod yn ymagweddu mewn ffordd sy'n cymryd i ystyriaeth yr hyn sy'n bosibl ac yn ymarferol.
4. Byddem yn dymuno gweld pob eglwys yn cynnal cenhadaeth mewn ardal gyfagos, (Derbe), ond hefyd yn yn edrych i sicrhau cysylltiad / partneriaeth genedlaethol.
5. Gall Gymrugyfan roi arweiniad i eglwysi sy'n ystyried eu cenhadaeth i Gymru. Os byddai hyn o gymorth, anfonwch neges at [post@cymrugyfan.org](mailto:post@cymrugyfan.org).
6. Os y byddwch yn anfon copi terfynol o'ch taflen waith, cawn weld os y medrwn gynorthwyo neu wneud awgrymiadau. Ebost [post@cymrugyfan.org](mailto:post@cymrugyfan.org).